GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Bloc 5, Llys Carlton, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, LL17 0JG
----------------------------------
Block 5, Carlton Court, St Asaph Business Park, St Asaph, LL17 0JG

Carolyn Thomas MS,
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deisebau,
Senedd Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd,
CF99 1SN

Trwy e-bost – seneddCovid@Senedd.wales

**Ein cyf / Our ref:** CS/CT(CE24/1102)
☎: 01745 448788 ext 6382
**Gofynnwch am / Ask for:** Emma Hughes
**E-bost / Email:** emma.hughes19@wales.nhs.uk
**Dyddiad / Date:** 23 Rhagfyr 2024

Annwyl Cadeirydd,

**Parthed: Deiseb P-06-1350 Ailagor Ward Dyfi yn Ysbyty Tywyn**

Diolch am eich llythyr diweddaraf ynglŷn â Ward Dyfi. Nodaf y pwynt fod y Pwyllgor Deisebau wedi trafod y ddeiseb hon am y pumed tro ar 30 Medi a bod hyn yn anarferol, ond rwy'n mawr obeithio y gallwch weld, o'n gohebiaeth gyson, fod y Bwrdd Iechyd yn gwneud popeth o fewn ei allu i recriwtio a chadw staff yn yr ardal wledig iawn hon, a'n bod yn rhannu rhwystredigaeth y Pwyllgor bod hi'n parhau i fod yn hynod o anodd er gwaethaf pob ymdrech.

**<u>Sut roedd y gwasanaeth yn arfer cael ei ddarparu</u>**

Cyn cau ward Dyfi dros dro ym mis Ebrill 2023, roedd 10 gwely wedi'u staffio yn Ysbyty Tywyn. Roedd swyddi gwag hirdymor yn golygu bod staff yn gweithio oriau hir y tu hwnt i'w horiau contract fel goramser, ac yn aml yn methu â chymryd gwyliau blynyddol/yn canslo gwyliau blynyddol i sicrhau lefelau staffio diogel ar y ward. Roedd staff asiantaeth yn annibynadwy ac yn aml yn cael eu canslo ar fyr rybudd a oedd yn peri risg sylweddol i ddiogelwch cleifion.

Nid oedd unrhyw wasanaeth Tuag Adref, roedd y Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd i gyd wedi'u lleoli ar y ward. Nid oedd Gwasanaeth Mân Anafiadau, gan fod gofyn cyson ar staff a gyflogwyd i weithio yn yr Uned Mân Anafiadau i ddarparu lefel staffio diogel i gleifion mewnol. Cafodd hyn effaith negyddol ar gadw staff gan nad oedd staff yn gweithio yn y meysydd yr oeddynt wedi eu cyflogi i weithio ynddynt yn wreiddiol, ac roedd hyn yn lleihau'r gweithlu ymhellach fyth.

Ar adeg y penderfyniad i gau ward Dyfi dros dro, roedd prinder o bedair nyrs gofrestredig Band 5, un swydd Dirprwy Reolwr Ward Band 6 ac un swydd Rheolwr Ward Band 7. Ddeunaw mis yn ddiweddarach mae un swydd wag ar gyfer nyrs gofrestredig Band 5 ac un swydd wag Band 6 Dirprwy Reolwr Ward ar y ward. Mae pedair nyrs a Hyfforddwyd yn Rhyngwladol wedi cael eu recriwtio i weithio yn Ysbyty Tywyn, ond mae cadw staff yn yr ardal wedi bod yn anodd gyda nifer o staff yn gadael i chwilio am waith y tu allan i'r ardal.

**Ble mae gwasanaethau'n cael eu darparu ar hyn o bryd, a beth yw nifer y cleifion mewnol sydd angen y gwasanaeth.**

Mewn ymateb i fethiant i agor ward Dyfi yn ddiogel oherwydd niferoedd staff annigonol, canolbwyntiodd y Bwrdd Iechyd ar gyflwyno modelau darparu amgen a ddefnyddir yn aml mewn ardaloedd mwy gwledig lle mae recriwtio yn her. Roedd y rhain yn cynnwys darparu gwasanaethau iechyd a gofal yn uniongyrchol yng nghartrefi cleifion, gweithio'n agosach gyda chartrefi gofal yn yr ardal i ddarparu gwasanaethau i'w preswylwyr er mwyn medru aros yn eu lleoliad am gyfnod hwy, a darparu cymorth i gleifion i'w galluogi i dreulio eu hwythnosau a'u dyddiau olaf yn eu cartref eu hunain, gydag urddas. Rydym wedi amlinellu'r rhain i'r Pwyllgor eisoes yn ein gohebiaeth. Mae'r darpariaethau yma wedi eu croesawu gan gleifion a'u teuluoedd, cartrefi gofal a'r awdurdod lleol.

Mae gwelyau cleifion mewnol ychwanegol wedi'u hagor yn Ysbyty Dolgellau, a cheir yno 18 gwely erbyn hyn, sef cynnydd cyffredinol o 4 gwely i fodloni'r galw yn Nhywyn. Mae rhai aelodau staff o ysbyty Tywyn wedi cael eu defnyddio i gefnogi'r gwelyau ychwanegol. Yn ystod y cyfnod hwn, derbyniwyd 67 o gleifion mewnol o ardal Tywyn. Mae hyn yn cynrychioli cyfartaledd o 3.5 claf y mis.

Mae agor y gwelyau ychwanegol yn Nolgellau ac adleoli staff dros dro o Dywyn wedi cael effaith gadarnhaol ar hyd arhosiad cleifion. Cyn cau ward Dyfi, roedd Ffisiotherapyddion a Therapyddion Galwedigaethol yn gweithio ar draws wardiau cleifion mewnol Tywyn a Dolgellau. Ers cau ward Dyfi dros dro, mae staff therapi wedi gallu darparu lefelau uwch o gymorth therapi i gleifion gan wella eu hadsefydliad a'u hadferiad, a lleihau'r amser sydd angen i gleifion aros yn yr ysbyty.

Crëwyd capasiti cymunedol ychwanegol yn ardal Tywyn trwy weithredu gwasanaeth Tuag Adref. Mae'r gwasanaeth hwn yn cefnogi cleifion i aros gartref, gan leihau derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu hosgoi yn ogystal â chefnogi rhyddhau'n gynt o'r Ysbyty a darparu cymorth lefel isel ac adsefydlu gartref ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Cafodd gweithwyr cymorth gofal iechyd a oedd yn arfer gweithio ar ward Dyfi eu hadleoli i ddarparu gwasanaeth Tuag Adref sy'n derbyn, ar gyfartaledd, 7 cyfeiriad yr wythnos.

Gwasanaeth arall a sefydlwyd ers cau'r ward dros dro yw'r Ystafell Driniaeth. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu amrywiaeth o driniaethau gofal clwyfau a gorchuddion yn ogystal â phrofion gwaed a rheolaeth cathetr, gyda'r bwriad o ehangu wrth i hyfforddiant a chymwyseddau ddatblygu. Mae sefydlu'r gwasanaeth hwn wedi lleihau'r galw ar ofal sylfaenol yn ogystal â rhyddhau capasiti Nyrsys Ardal gan ganiatáu iddynt ganolbwyntio ar y cleifion sy'n gaeth i'r tŷ a chleifion mwy cymhleth gartref. Mae'r ystafell driniaeth wedi bod yn weithredol ers mis Gorffennaf 2023 gyda mwy na 2,700 o ymweliadau hyd yma. Gan nad oes angen adleoli staff o ardaloedd eraill i ddarparu'r lefelau staffio gofynnol ar gyfer y ward cleifion mewnol yn Nhywyn, mae hyn wedi caniatáu ailagor yr Uned Mân Anafiadau yn llwyddiannus hefyd. Mae'r Uned ar agor 5 diwrnod yr wythnos ar hyn o bryd gyda chynlluniau i agor 7 diwrnod yr wythnos ac mae wedi gweld dros 1,300 yn mynychu ers iddo ailagor.

Mae’r Bwrdd Iechyd wedi gallu darparu’r gwasanaethau hyn lle mae’r galw’n uchel, oherwydd bod y staff a adleolwyd yn gweithio’n agos gyda’r timau cymunedol a’r gymuned ei hun.

Mae’n werth nodi hefyd bod ardal y ward yn yr ysbyty yn cael ei defnyddio bob dydd, gan yr Hwb Llesiant, y Tîm Iechyd Meddwl Pobl Hŷn, clinigau brechu rhag y ffliw a Covid a chlinigau Fflebotomi. Mae nifer o glinigau cleifion allanol yn cael eu darparu gan Feddyg Ymgynghorol o BIPBC a Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn ogystal, ac mae ystafell mewnwythiennol wedi'i chyflwyno.

Mae staff BIPBC wedi croesawu’r newidiadau, ac wedi manteisio ar y cyfle i uwchsgilio a datblygu, gyda gwell morâl ymhlith y staff a gwell cydweithio tîm.

**Beth yw'r opsiynau ar gyfer y dyfodol**

Fel yr amlygwyd yn y drafodaeth yn y Pwyllgor Deisebau, mae angen gweithio gyda’r gymuned leol a’i chynrychiolwyr i ystyried beth yw’r model gorau ar gyfer darparu gwasanaethau ar gyfer yr ardal hon wrth symud ymlaen. Nid oes amheuaeth bod model diogel a chynaliadwy o ofal o ansawdd yn well na gofal lleol gwael.

Wrth ddymuno ceisio adfer ward Dyfi, ac mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’n gyson mai dyna yw’r bwriad, mae pob ymdrech wedi’i chanolbwyntio ar sicrhau’r lefelau staffio digonol. Fodd bynnag, rydym wedi gweld dros y 18 mis diwethaf yr her wirioneddol o nid yn unig recriwtio ond hefyd o gadw staff mewn ardaloedd gwledig, fel y nodwyd yn ein gohebiaeth flaenorol gyda’r Pwyllgor, ar ôl i ni recriwtio rydym wedi gweld bod staff wedi dewis peidio ag aros am nifer o resymau.

Mae’n werth nodi, os a phan fydd recriwtio’n llwyddo i sicrhau’r isafswm diogel o lefelau staffio ar gyfer ward cleifion mewnol 24/7, mae’n sicr y byddai ailagor ward Dyfi yn effeithio ar allu’r Bwrdd Iechyd i gynnal gwasanaethau clinigol eraill a darpariaeth gymunedol yn y tymor hir. Byddai angen llenwi swyddi gwag yn ogystal ag absenoldebau o ddydd i ddydd (salwch tymor byr a thymor hir/absenoldeb mamolaeth/absenoldeb blynyddol ac ati) a fyddai’n golygu y byddai gwasanaethau fel Nyrsio Ardal, Tuag Adref a Mân Anafiadau yn cael eu heffeithio (lleihau capasiti/cau gwasanaeth) o ganlyniad i staff hyfforddedig y gwasanaethau hyn yn gorfod gweithio ar y ward i sicrhau'r lefelau staffio diogel cywir fyddai’n ofynnol ar gyfer y ward.

Mae’r bwrdd iechyd wedi cael trafodaeth gyda’r gymuned leol ynghylch beth yw’r blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau lleol. Nododd y gweithdy ymgysylltu a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2024 nifer o wasanaethau roedd y grŵp wedi canfod iddynt fod yn ddiffygiol neu y gellid eu gwella yn yr ardal. Roedd y rhain yn cynnwys darpariaeth gwelyau cleifion mewnol, gofal diwedd oes, gofal seibiant a gwell cymorth iechyd meddwl. Mynychwyd y gweithdy gan randdeiliaid oedd yn cynnwys Cyngor Gwynedd, Grŵp Gweithredu Ysbyty Tywyn, Cynghorwyr Tref Lleol, Aelodau’r Senedd, cartrefi nyrsio lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae ffrydiau gwaith i fynd i'r afael â'r themâu allweddol yn cael eu sefydlu gyda ffrwd waith Gofal yn Nes at y Cartref yn edrych ar ddatblygu llwybrau gofal

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

diogel a chynaliadwy ar gyfer y boblogaeth leol. Byddai hyn yn cynnwys archwilio cydweithio agosach gyda'r cartrefi gofal ac archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio model gweithio hybrid mewn ardaloedd gwledig eraill.

Ar 26 Tachwedd 2024, cynhaliodd Llais Gogledd Cymru fforwm cyhoeddus yn Nhywyn, i archwilio effaith cau Ward Dyfi ar gleifion Tywyn. Cynhaliwyd dwy sesiwn, un yn y bore ac un yn y prynhawn. Roedd y fforwm yn gyfle i'r cyhoedd gynnig mewnbwn ar effeithiau cau'r ward cleifion mewnol. Cefnogodd staff BIPBC y gweithdy hwn gan amlinellu'r hyn oedd wedi ei wneud i liniaru effaith cau'r ward cleifion mewnol tra'n sicrhau bod anghenion iechyd pobl Tywyn yn cael eu diwall.

Gan adlewyrchu trafodaeth y Pwyllgor Deisebau a chydweithio'n agos â LLAIS, mae ymgysylltu pellach â'r gymuned wedi'i gynllunio yn gynnar yn 2025 i drafod ffordd ymlaen sy'n fwy cynaliadwy.

Yn gywir,

**Carol Shillabeer**
**Prif Weithredwr/Chief Executive**